COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD IAU IONAWR 4ydd 2018 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Tim Baker, David Ritchie, Nicholas Smith, Constance Atwill, Bob Barton a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Rhian Jones a Kenneth Tams.

2. CROESO.
Croesawodd y Cadeirydd y tri Aelod a gyfetholwyd i'w cyfarfod Cyngor cyntaf – Constance Atwill, David Ritchie a Nicholas Smith.

3. YMDDISWYDDIAD.
Derbyniodd y Clerc ymddiswyddiad ysgrifenedig Linda Roberts fel Aelod o'r Cyngor. Gofynnodd yr Aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Linda Roberts i ddiolch iddi am ei gwaith fel Aelod o'r Cyngor. Hysbysebir y sedd wag yn unol â hynny.

4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB.
Dim datganiad wedi ei dderbyn.

5. DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.
Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 4ydd Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
A. Fe wnaeth y Cyng Tim Baker ddiweddaru'r Aelodau ynghylch y Ganolfan Gymunedol. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod yn ystod mis Ionawr i drafod cyfansoddiad y Pwyllgor, yn ogystal â'r cais cynllunio ar gyfer Y Griffin, gyda chymorth Cadwyn Clwyd. Penderfynodd yr Aelodau ar y canlynol: -

1. Rhoi benthyciad o £1,500.00 i'r Pwyllgor Rheoli ar gyfer y costau cychwynnol.
2. Rhoi arian cyfatebol i waith Cadwyn Clwyd ar gyfer ffioedd angenrheidiol sefydlu'r Ganolfan Gymunedol.

B. Bu'r Cynghorwyr Lyn Evans a Bob Barton yn y Cyfarfod Cyhoeddus Band Eang a gynhaliwyd gan Gynghorydd Sir Ddinbych Martyn Holland yn Llanarmon-yn-iâl ar 7fed Rhagfyr 2017. Mynychwyd y cyfarfod gan gynrychiolaeth o BT, wnaeth nodi pryderon ynglŷn â materion band eang. Byddent yn adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau maes o law.
C. Mynychodd y Cyng Bob Barton gyfarfod Ymgynghori ar Nodyn drafft Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Ardal o Harddwch Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ym Mharc Gwledig Loggerheads ar 6ed Rhagfyr 2017, sy'n cwmpasu Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd Cyngor Sir Fflint yn arwain ar weinyddu'r "Canllawiau Cynllunio Atodol".

7. TUDALEN FACEBOOK Y CYNGOR.
Cadarnhaodd y Cyng Tim Baker, ar ôl trafod y mater gyda Chyng Sir Ddinbych Huw Williams, mai Huw Williams yw gweinyddwr y dudalen "Facebook" sydd ar safle we Llanbedr DC.

8. SAFLE WE'R CYNGOR.
Adroddodd y Cyng Tim Baker ar ei ganfyddiadau ynglŷn â safle we'r Cyngor sydd angen ei diweddaru a'i moderneiddio. Cytunodd y Cyng Baker i gynorthwyo i ddiweddaru'r safle we

gyda'r wybodaeth angenrheidiol (diweddaru tudalen yr Aelodau ayb.). Cytunodd yr Aelodau i roi'r gwaith o gyfieithu'r wefan i'r Gymraeg i Brenda Jones ar gost o £20.00.

9. LWFANSAU AELODAU.
Yn ôl dogfen Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru (Adroddiad Blynyddol Chwefror 2018), o'r 1af o Ebrill 2018, £150 all Aelodau'r Cyngor hawlio fel lwfans blynyddol - £1,500 i'r Cadeirydd a £500 i'r Dirprwy Gadeirydd.

10. ANGHENION PRAESEPT 2018/19 Y CYNGOR
Cyflwynodd y Cyng Bob Barton ddogfen gyllideb i'r Aelodau fel cymorth i osod Praesept y Cyngor ar gyfer 2018/19. I grynhoi, y gwariant disgwyliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 yw £7,580, a dylai gwariant disgwyliedig 2108/19 fod oddeutu £25,968. Y prif gynnydd mewn gwariant ar gyfer 2018/2019 yw:-

A. Costau cyfieithu £1,000
B. Lwfansau Aelodau £3,350
C. Dodrefn stryd £500
D. Cymhorthdal Arian Cyfatebol Cymunedol £15,000.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd yr Aelodau osod Praesept y Cyngor ar gyfer 2018/19 yn £25,500.00.

11. CYLLID.
A. Cyfrifon banc:-
1. Cyfrif Cyfredol £3,936.38.
2. Cyfrif Cadw £9,326.95.
B. Derbynneb praesept olaf 2017/18 - £1,667.00.
C. Taliadau:-
1. Swyddfa Archwilio Cymru - Ffi Archwilio Allanol - £161.55.
2. Fineline – taflenni Digwyddiad Goleuadau Nadolig - £63.06.

12. CEISIADAU CYNLLUNIO.
A. Cais 16/2017/1150 – Adeiladu estyniadau, addasu'r annedd a gwneud newidiadau i'r fynedfa gerbydau bresennol yn Llwyn Celyn, Llanbedr DC – dim gwrthwynebiad.
B. Cais 16/2017/1074 – Datblygu 0.13 ha o dir drwy adeiladu annedd a gosod tanc septig newydd (cais amlinell gan gynnwys mynediad) ar dir sy'n rhan o ardd Cae Glas, Lon Cae Glas, Llanbedr DC – Penderfynodd yr Aelodau nodi pryderon ynglŷn â'r traffig ychwanegol fyddai hyn yn achosi ar ffordd gul Cae Glas.
C. Ymgynghoriad cyn gwneud cais am adeiladu uned newydd ar gyfer magu lloi a gwaith cysylltiedig yn Genus Green Park, Llanrhydd – dim gwrthwynebiad.

13. GOHEBIAETH.
Dim gohebiaeth wedi ei dderbyn.

14. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.
Adroddodd Cyng Sir Ddinbych Huw Williams drwy'r Cyng Tim Baker y bydd mater anorffenedig y ceudyllau yn Llanbedr DC wedi ei ddatrys erbyn diwedd mis Ionawr.

15. MATER BRYS DAN ADRAN 100B(4) Y DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.
Nid oedd unrhyw fater brys i'w drafod.

16. CYFARFOD NESAF O'R CYNGOR – Dydd Llun 5 Chwefror 2018 yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.